

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 16eg Mawrth 2016 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod Arbennig y Cyngor.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd A. R. James (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr Ms J. Hughes Ms J. McAlpine, S. H. Ratcliffe Miss S. L. Roberts,
A. J. Rutherford a Miss R. Siddall.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

57. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Mrs E. M. Chard (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl) a'r Parch. S. F. Walker (ymrwymiad gwaith).

58. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNYD** fel y nodir arnynt nawr.

CEISIADAU CYNLLUNIO		16 Mawrth 2016
58.1	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 11 River Street, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Foryd</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2015/0803/PF Newid defnydd eiddo o westy 10 llofft yn 6 fflat oll-gynhwysol. Yr Ymgeisydd yw Mr Sion Edwards o Fryn Hyfryd, Ffordd Uchaf, Gwynfryn, Wrecsam.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim Gwrthwynebiad</p>	
58.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 14 Gareth Close, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Derwen</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/0201/PC Cadw decin uchel yng nghefn yr eiddo. Yr Ymgeisydd yw Mr Andrew Brett o'r un cyfeiriad.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <u>Gwrthwynebu</u> oherwydd colli mwynderau i berchnogion yr eiddo cyffiniol gan fod y decin yn edrych dros eu heiddo.</p>	

59. GWRANDAWIAD ANFFURFIOL – HEN SAFLE THORPE ENGINEERING AND DESIGN, Ffordd Derwen, Y RHYL.

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn gohebiaeth yn dweud bod apêl wedi ei chyflwyno yn erbyn gwrthodiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol i roddi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad uchod, a fyddai'n cael ei phenderfynu trwy gyfrwng gwrandawriad anffurfiol.

60. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: